

Dyddiad: 26 Hydref 2026

Annwyl

ATISN 27584

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 28/09/2026. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- O'r 23 aelod o uwch wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru sydd â chyfeiriad cartref mewn awdurdod lleol tu allan i Gymru (fel yr adroddwyd mewn ymateb i ATISN 27318), faint o'r rhain sydd yn: Ddirprwy Gyfarwyddwyr, Cyfarwyddwyr, Cyfarwyddwyr Cyffredinol neu Arall.

Dirprwy Gyfarwyddwyr: 15
Cyfarwyddwyr/ Cyfarwyddwyr Cyffredinol/Arall: 8

Gan fod rhai o'r grwpiau y gofynnwyd amdanynt yn fach iawn (Cyfarwyddwyr Cyffredinol ac Arall), mae'r ffigurau wedi'u crynhoi i ddiogelu cyfrinachedd unigol a lleihau'r risg o adnabod.

- Cyfeirir at adran 4 adroddiad blynyddol y Llywodraeth ar gydymffurfio gyda safonau'r Gymraeg (cyhoeddwyd 30 Mehefin 2026) lle rhoddir tabl o ddata sgiliau iaith Gymraeg y sefydliad fel yr oedd ar 31 Mawrth 2026. Darparwch yr wybodaeth hon i) gyda'r uwch wasanaeth sifil wedi'i dynnu allan (felly holl staff y sefydliad heblaw aelodau'r uwch wasanaeth sifil) a ii) ar gyfer yr uwch wasanaeth sifil yn unig.

Holl staff heblaw aelodau'r uwch wasanaeth sifil

	Darllen	Siarad	Deall	Ysgrifennu
0	1738 (34%)	2277 (44%)	1899 (37%)	2569 (50%)
1	1540 (30%)	1326 (26%)	1324 (26%)	1138 (22%)
2	490 (9%)	296 (6%)	571 (11%)	326 (6%)
3	339 (7%)	198 (4%)	232 (4%)	316 (6%)
4	312 (6%)	261 (5%)	301 (6%)	313 (6%)
5	765 (15%)	827 (16%)	856 (17%)	503 (10%)

Uwch wasanaeth sifil

	Darllen	Siarad	Deall	Ysgrifennu
0	69 (37%)	87 (46%)	74 (39%)	98 (52%)
1	48 (26%)	49 (26%)	42 (22%)	37 (20%)
2	21 (11%)	9 (5%)	24 (13%)	18 (10%)
3	17 (9%)	15 (8%)	12 (6%)	18 (10%)
4	11 (6%)	11 (6%)	14 (7%)	5 (3%)

5	21 (11%)	19 (10%)	23 (12%)	12 (6%)
---	----------	----------	----------	---------

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar sgiliau'r Gymraeg wedi eu hunanasesu ac wedi'u cofnodi gan aelodau staff unigol. Mae'r canrannau yn seiliedig ar gyfanswm nifer staff Llywodraeth Cymru sydd â lefel hunanasesu wedi'i gofnodi ar gyfer y sgil berthnasol. Felly, nid yw hwn yn gofnod cyflawn nac union o sgiliau Cymraeg gweithlu Llywodraeth Cymru. Mae ffigurau yr uwch wasanaeth sifil yn seiliedig ar radd y swydd yr oedd yr unigolyn yn gweithio ynddi ar 31 Mawrth 2026. Sylwch fod gwall wedi'i nodi yn y ffigurau a gyhoeddwyd yn flaenorol ac mae cywiriad yn cael ei gyhoeddi. Mae'r tablau uchod yn seiliedig ar y ffigurau cywiro.

Y camau nesaf

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Gwefan: www.ico.org.uk

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir